**Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

| |
|---|
| **Dyddiad: 12 Mehefin 2002** |
| **Amser: 9.30am** |
| **Lleoliad: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl: Adroddiad y Cadeirydd** |

**Diben**

1. Rhoi'r diweddaraf am y materion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**Argymhelliad**

2. Bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

**Cefndir**

3. Cyfarfu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ddiwethaf ar 8 Mai 2002. Isod rhestrir y datblygiadau ers hynny.

**Canolfan Ewropeaidd Cymru (WEC)**

4. Mae'r trafodaethau â'r carfannau pwysig eraill yn mynd rhagddynt. Cyhoeddwyd adroddiad Syr John Gray ar 10 Mehefin.

**Gweithdai Cydlyniant y Comisiwn Ewropeaidd**

5. Ar 31 Ionawr 2002, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei adroddiad cynnydd cyntaf ar ei Ail Adroddiad ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol. Cyflwynwyd braslun o'r adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (EUR-01-02[P.5, 13 Chwefror 2002).

6. Yr adroddiad cynnydd yw'r ychwanegiad diweddaraf at y drafodaeth ar bolisi cydlynu'r UE yn y dyfodol. Dilynwyd yr adroddiad gan weithdai cydlyniant ym Mrwsel ar 27 a 28 Mai. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i gynnal trafodaethau technolegol manylach nag a gafwyd hyd yn hyn. Roedd swyddogion yn cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y gweithdai, ac fe fydd papur yn cael ei drafod yng nghyfarfod heddiw.

## Digwyddiadau/Ymweliadau'r Gweinidog

### Ymweliad y Prif Weinidog â Brwsel

7. Ar 13 Mai 2002, mynychais gyfarfod 'A Bridge from European Governance to the Convention' a gynhaliwyd yn swyddfa ranbarthol Emilia-Romagna ym Mrwsel. Diben y gynhadledd oedd hyrwyddo'r 'Datganiad Cyffredinol ar Lywodraethu Ewropeaidd' a thros ginio cyfarfum â Vasco Errani, Llywydd Rhanbarth Emilia-Romagna.

8. Fe wnes hefyd gyfarfod â'r Comisiynydd Michel Barnier a Gweinidog-Lywyddion o ranbarthau'r UE a ddilyn: Aquitaine, Hessen, Marche, yr Alban, Skåne, Twscani, Fflandrys, a Wallonia.

9. Roedd yr ymweliad yn cynnwys trafodaethau â staff Swyddfa Ewropeaidd Cymru ynghylch cynlluniau'r Cynulliad ar gyfer Brwsel, a thrafodaethau â Swyddfa UE Gweinyddiaeth yr Alban a Scotland Europa ynghylch sefyllfa'r Alban ym Mrwsel.

### Ymweliad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd â Brwsel

10. Ar 24 Mai 2002, gwnaeth Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, gadeirio Cyfarfod Cyffredionol Blynyddol y Rhwydwaith TeleRanbarthau ym Mrwsel yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd. Gwnaeth hefyd annerch seminar a drefnwyd gan Llywodraeth Tywysogaeth Asturias (Sbaen) ar 'Y rhanbarthau sy'n wynebu her technoleg newydd yn y Gymdeithas Wybodaeth: Dulliau arloesol yn y sector e-Lywodraeth'.

### Ymweliadau'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes â Brwsel a Thwscani

11. Ar 20 Mai 2002, mynychodd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Gyfarfod y Cyngor Ieuenctid ym Mrwsel gan gynrychioli'r DU yno. Hefyd derbyniodd wahoddiad y Gweinidog Benesperi i gyfarfod ar 5-7 Mehefin 2002 yn Nhwscani, er mwyn cael profiad uniongyrchol o'u system addysg a hyfforddi.

### Cyfarfod y Gweinidog dros Ddiwylliant â'r Comisynydd Reding

12. Yn dilyn gwahoddiad Eluned Morgan ASE**,** gwnaeth y Comisynydd Reding ddod i Gaerdydd ar 3 Mehefin 2002 i ymweld â'r Urdd ar Gae Cooper a chladdu capsiwl amser ar safle Canolfan y Mileniwm. Gwnaeth Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, gwrdd â'r Comisiynydd a mynd yn gwmni iddi yn ystod rhan helaeth o'i hymweliad.

### Ymweliad yr Ombwdsmon Ewropeaidd â Chaerdydd

13. Trefnodd Swyddfa Gynrychioli'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghaerdydd i'r Ombwdsmon Ewropeaidd, Mr Jacob Soderman, ymweld â Chaerdydd ar 27-28 Mai i godi proffil ei waith. Cefais drafodaeth ddiddorol a buddiol gydag ef ac rwy'n gobeithio y gwnaeth y rheini â wnaeth gyfarfod ag ef hefyd ei chael yn ddefnyddiol. Gwnaeth Mr Soderman hefyd gynnal trafodaethau â nifer o swyddogion.

**Digwyddiadau Ewropeaidd**

14. Cyfarfûm â Romano Prodi, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, yn ystod ei ymweliad â Chymru ar 24 Mai i agor swyddfeydd newydd Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yn Caspian Point.

15. Ar 27 Mai, croesewais y Gyngres Eurometal yn y Celtic Manor, Casnewydd. EUROMETAL yw Ffederasiwn Ewropeaidd y Cymdeithasau Masnachwyr Dur, Tiwb a Metel. Mae CORUS yn cefnogi'r gyngres, sy'n ymdrin â chynhyrchu dur yn ogystal â'i ddosbarthu. Mae'r gyngres yn ddigwyddiad rhyngwladol a chafodd ei chynnal yng Nghymru am y tro cyntaf.

16. Ar 20 Mai 2002, cyfarfûm â thîm Dinas Diwylliant 2008 yn yr Hen Lyfrgell, Caerdydd. Roedd bid y tîm, Caerdydd Dinas Diwylliant, newydd gael ei gyflwyno gerbron yr Adran Ddiwyllaint, Cyfryngau a Chwaraeon. Disgwylir clywed pwy fydd ar y rhestr fer yn yr hydref, a chael gwybod am y bid llwyddiannus yn ngwanwyn 2003.

**Digwyddiadau Allanol**

17. Ar 21 Mai 2002, croesewais Gynhadledd Swyddogion Masnachol y Gwlff dan ofal y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO). Cynhaliodd Masnach Cymru Rhyngwladol gynhadledd ar gyfer 21 Swyddog Masnachu'r Gwlff a chynrychiolwyr desg o farchnad y DU, sef Trade Partners UK. Y nod oedd eu cyflwyno i wasanaethau Masnach Cymru Rhyngwladol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eu marchnadoedd a galluogi nifer o gwmnïoedd o Gymru i roi cyflwyniadau gerbron Swyddogion y Gwlff ar ba gynnyrch/gwasanaethau y maent yn eu gwerthu.

18. Ar 29 Mai 2002, cynhaliais ginio i Lysgenhadon y Gynghrair Arabaidd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru fel rhan o'u hymweliad swyddogol cyntaf â Chymru.

19. Ymwelodd cynrychiolaeth o Gyngor Rhanbarthol Skåne, Sweden, â Chymru ar 15-17 Mai i ddysgu am foderneiddio llywodraeth leol, datblygu rhanbarthol a phrosiectau adfywio cymunedau. Roedd eu rhaglen yn cynnwys ymweliadau â Pharc Ynni Baglan, Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru, Parc Arfordirol y Mileniwm a Bae Caerdydd. Gwnaeth y gynrychiolaeth hefyd gwrdd â swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Crynodeb o'r Digwyddiadau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gwledydd sy'n Gwneud Cais yn y cyfnod o 8 Mai tan 12 Mehefin

### Gwlad Pwyl

20. Gwnaeth Dr Jan Olbrycht, Marsial talaith Silesia yng Ngwlad Pwyl ymweld â Chymru ar 7-9 Mai 2002. Roedd y Marsial yn ymweld â Chymru yn dilyn gwahoddiad y Prif Weinidog er mwyn hyrwyddo cydweithrediad rhwng y ddwy wlad. Yn ystod ei ymweliad, anerchodd y Marsial y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ddydd Mercher 8 Mai. Ar Ddiwrnod Ewrop, ddydd Iau 9 Mai, ef oedd yr uwch-wleidydd cyntaf o wlad sy'n gwneud cais i gael cyfle i annerch Cyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ystod ei ymweliad, cytunwyd i gael Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Silesia a Chymru.

### Hwngari

21. Ymwelodd Dr Imre Boros, Gwenidog Hwngari dros Gymorth Rhyngwladol a'r Dr Janos Rapcsak, Ysgrifennydd Gwladol Hwngari, â Chaerdydd ar 16-17 Mai 2002. Diben eu hymweliad oedd helpu i ffurfio cysylltiadau â rhanbarthau megis Cymru sydd wedi elwa o arian Amcan 1, er mwyn cynorthwyo Hwngari i baratoi i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd. Gwnaeth Gweinidogion Hwngari gyfarfod â chydweithwyr yng Nghynulliad Cymru yn ogystal â chynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru. Cynhaliais dderbyniad ar gyfer Dr. Boros yng Nghaerdydd ar 16 Mai.

### Cydymffurfio

22. Sefydlwyd y Pwyllgor dan Reol Sefydlog 15. Mae Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (a ddirprwywyd i'r Prif Weinidog) i alluogi'r Cynulliad i ystyried a gwneud cynigion priodol ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru. Cysylltwyd â Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

### Goblygiadau Ariannol

23. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn codi o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol**

Mai 2002